

Dirprwyo ac atgyfeirio



Crynodeb

Mae'r canllawiau hyn yn edrych yn fanwl ar ddirprwyo a sut mae gan y ddwy ochr gyfrifoldebau ar wahân a sut mae hyn yn gweithio.

Ar gyfer y rheini sy'n dirprwyo, maent yn dweud wrthyh chi:

- sut i roi cyfarwyddiadau clir,
- yr wybodaeth i'w throsglwyddo
- pwysigrwydd gwirio dealltwriaeth.

Maent hefyd yn rhoi cyngor ar ffyrdd o wirio i gael eich bodloni bod eich cydweithiwr yn gallu gwneud y dasg.

Ar gyfer y rheini sy'n derbyn tasgau dirprwyedig,

- mae manylion am y cyfrifoldeb i ddeall y dasg
- gofyn am help neu eglurhad pan fo angen
- yr angen i roi diogelwch cleifion cyn pob ystyriaeth arall.

Maent hefyd yn rhoi cyngor ar atgyfeirio cleifion yn ddiogel at weithwyr meddygol a gofal iechyd proffesiynol eraill, a sut i egluro hyn i'ch cleifion.

Dirprwyo ac atgyfeirio

Safonau proffesiynol: canllawiau manylach

Cyhoeddwyd y canllawiau hyn ar 4 Rhagfyr 2023

Daeth y canllawiau hyn i rym ar 30 Ionawr 2024.

Cafodd y canllawiau hyn eu diweddarau ddiwethaf ar 13 Rhagfyr 2024.

Gallwch weld y fersiwn ddiweddaraf o'n holl safonau proffesiynol trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.

Cynnwys

<i>Dirprwyo ac atgyfeirio</i>	1
Dirprwyo	3
Dirprwyo tasgau neu gyfrifoldebau mewn ffordd briodol	3
Cyfarwyddiadau a goruchwyliaeth	4
Derbyn tasgau neu gyfrifoldebau dirprwyedig	4
Atgyfeirio	5
Cyfathrebu gyda chleifion a chydweithwyr	6
Atebolrwydd dros ddirprwyo neu atgyfeirio	6
Atodiad – Dyfyniadau o <i>Arfer meddygol da</i>	7
Troednodiadau	9

1. Mae *Arfer meddygol da* yn nodi'r egwyddorion, y gwerthoedd a'r safonau gofal ac ymddygiad proffesiynol a ddisgwylir gan bob gweithiwr meddygol proffesiynol sydd wedi cofrestru gyda ni. Mae'r safonau arfer da yn berthnasol i feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel gweithwyr meddygol proffesiynol ac fel 'chi' yn y canllawiau hyn). Fel gyda'n holl safonau proffesiynol, mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i'n gweithwyr proffesiynol cofrestredig i'r graddau y maent yn berthnasol i ymarfer yr unigolyn. Mae *Dirprwyo ac atgyfeirio* yn ychwanegu at *Arfer meddygol da* i roi mwy o fanylion am yr hyn rydym yn ei ddisgwyl o weithwyr meddygol proffesiynol yn y maes hwn.
2. Mae'r safonau proffesiynol yn disgrifio arfer da, ac ni fydd pob achos o wyro oddi wrthynt yn cael ei ystyried yn ddifrifol. Rhaid i chi ddefnyddio eich barn broffesiynol i ddefnyddio'r safonau yn eich gwaith o ddydd i ddydd. Os byddwch chi'n gwneud hyn, yn gweithredu'n

Dirprwyo

3. Mae dirprwyo yn ymwneud â gofyn i gydweithiwr ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros ddarparu gofal neu driniaeth ar eich rhan. Rhennir atebolrwydd dros ddirprwyo diogel rhwng y cydweithiwr sy'n dirprwyo a'r cydweithiwr y caiff gofal neu driniaeth ei dirprwyo iddynt. Rhaid i chi gydweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod y dirprwyo yn briodol.

Dirprwyo tasgau neu gyfrifoldebau mewn ffordd briodol

4. Rhaid i chi fod yn hyderus bod y cydweithiwr y byddwch yn dirprwyo iddynt yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni'r dasg, neu y byddant yn cael eu goruchwyllo mewn ffordd ddigonol i sicrhau gofal diogel.
5. Fel arfer, byddwch yn dirprwyo i gydweithiwr sy'n weithiwr meddygol, yn weithiwr iechyd neu'n weithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol sydd wedi cofrestru gyda chorff rheoliadol statudol. Os na fydd cydweithiwr wedi cofrestru gyda chorff rheoliadol statudol, gall cofrestru ar gofrestr wirfoddol a reolir gynig rhywfaint o sicrwydd eu bod wedi cyflawni safonau cymhwysedd diffiniedig, a'u bod yn cadw at safonau cytunedig ar gyfer eu sgiliau proffesiynol a'u hymddygiad. Gellir gweld gwybodaeth am gofrestrau achrededig ar wefan yr [Awdurdod Safonau Proffesiynol](#). Nes bydd rheoleiddio statudol yn ei le, gall cymdeithion meddygol ymuno â [Chofrestr Wirfoddol a Reolir o Gymdeithion Meddygol](#) a gall cymdeithion anesthesia ymuno â [chofrestr wirfoddol Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion](#).

6. Gall rôl, gradd a hyfforddiant y cydweithiwr gynnig rhywfaint o sicrwydd am lefel eu cymhwystra hefyd.

Cyfarwyddiadau a goruchwyliaeth

7. Dylech helpu i greu amgylchedd gwaith a hyfforddiant tosturiol a chefnogol – lle gall cydweithwyr llai profiadol deimlo'n ddiogel i ofyn cwestiynau a chael eu cynorthwyo pan fyddant yn mynegi ansicrwydd neu ddiffyg hyder.
8. Rhaid i chi roi cyfarwyddiadau clir wrth ddirprwyo, gan gynnwys am yr hyn y mae angen ei wneud, gan bwy ac erbyn pryd.
9. Rhaid i chi annog cydweithwyr i:
 - a. gofyn cwestiynau fel eu bod yn deall yr hyn y gofynnir iddynt ei wneud
 - b. ymgylchwrddo â chanllawiau neu brotocolau sefydliadol ynghylch uwchgyfeirio triniaeth neu adolygiadau uwch
 - c. ceisio cymorth neu oruchwyliaeth os bydd angen hwn arnynt ar unrhyw adeg ar ôl dirprwyo tasg.
10. Dylech sicrhau bod cydweithwyr yn deall yr hyn y gofynnir iddynt gymryd cyfrifoldeb drosto, a phryd i geisio mewnbwn gan gydweithiwr mwy profiadol.
11. Rhaid i chi ymateb mewn ffordd adeiladol i unrhyw bryderon sydd gan gydweithwyr a sicrhau eu bod yn gwybod ble y gallant gael cymorth neu fanteisio ar oruchwyliaeth.¹

Derbyn tasgau neu gyfrifoldebau dirprwyedig

12. Wrth dderbyn cyfrifoldeb am dasgau dirprwyedig, rhaid i chi roi blaenoriaeth i ddiogelwch cleifion dros ystyriaethau eraill fel cyfleoedd hyfforddiant neu asesiadau perfformiad.
13. Rhaid i chi sicrhau eich bod:
 - a. yn deall yr hyn y gofynnir i chi ei wneud, erbyn pryd, a gofyn cwestiynau os na fyddwch yn deall

¹ [Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol – Cyngor gan yr Hwb Moesegol i oruchwylwyr.](#)

-
- b. yn gallu cyflawni'r dasg ddirprwyedig, dan oruchwyliaeth yn ôl yr angen
 - c. yn meddu ar ddealltwriaeth o'r claf, a allai olygu darllen nodiadau ac adolygu canlyniadau profion pan fo hynny'n berthnasol.
14. Wrth dderbyn cyfrifoldeb dros dasgau dirprwyedig, neu ar unrhyw adeg ar ôl hyn, os byddwch yn pryderu na fyddwch yn gallu eu cyflawni mewn ffordd ddiogel, rhaid i chi ofyn am gymorth neu ofyn i gydweithiwr mwy profiadol ymgymryd â nhw.

Atgyfeirio

15. Atgyfeirio yw pan fyddwch yn trefnu bod gweithiwr meddygol, gweithiwr iechyd neu weithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol arall neu wasanaeth yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros ran o ofal claf neu ei holl ofal.
16. Fel arfer, byddwch yn atgyfeirio'r claf at wasanaeth rheoledig, neu at weithiwr meddygol, gweithiwr iechyd neu weithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n meddu ar gofrestrriad cyfredol gyda chorff rheoliadol statudol. Os ydych chi'n ymwybodol o'r ffaith bod gweithiwr meddygol, gweithiwr iechyd neu weithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol wedi cael ei ddileu o gofrestr broffesiynol neu wedi cael ei atal rhag ymarfer, ni ddylech atgyfeirio cleifion at y gweithiwr proffesiynol hwnnw. Os byddwch yn ystyried atgyfeirio'r claf at wasanaeth neu weithiwr proffesiynol mewn gwlad dramor, rhaid i chi deimlo'n hyderus y byddai'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny.
17. Os ydych yn dymuno atgyfeirio claf at weithiwr proffesiynol neu wasanaeth anrheoleiddiedig, rhaid i chi deimlo'n hyderus bod systemau yn eu lle i ddilysu diogelwch ac ansawdd y gofal y maent yn ei ddarparu. Er enghraifft, gall cofrestru gwirfoddol gynig rhywfaint o sicrwydd bod ymarferwr wedi bodloni safonau cymhwysedd diffiniedig, a'u bod yn cadw at safonau cytunedig ar gyfer sgiliau proffesiynol a'u hymddygiad (gweler paragraff 6).
18. Wrth atgyfeirio claf at gydweithiwr neu wasanaeth mewn unrhyw sefyllfa, dylech sicrhau bod y claf yn gwybod:
- a. pwy sy'n gyfrifol am ei ofal cyffredinol os nad chi
 - b. pam eich bod wedi ei atgyfeirio, a beth ddylai ddigwydd nesaf
 - c. pryd y gall ddisgwyl gweld y gweithiwr proffesiynol newydd
 - d. pwy y dylai gysylltu â nhw os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon am ei ofal.

Cyfathrebu gyda chleifion a chydweithwyr

19. Bydd y paragraffau canlynol yn berthnasol os byddwch yn dirprwyo neu'n atgyfeirio.
20. Dylech esbonio i'r claf y bydd cydweithiwr neu wasanaeth arall yn darparu rhan o'i ofal neu ei ofal cyfan, gan esbonio'r rhesymau pam.
21. Rhaid i chi drosglwyddo'r canlynol i'r gweithiwr meddygol, y gweithiwr iechyd, neu'r gweithiwr gofal cymdeithasol neu'r darparwr gwasanaeth perthnasol:
 - a. gwybodaeth berthnasol am gyflwr a hanes y claf
 - b. diben trosglwyddo'r gofal a/neu'r ymchwiliad, y gofal neu'r driniaeth y mae eu hangen ar y claf.
22. Dylech sicrhau bod y claf yn deall pa wybodaeth y byddwch yn ei throsglwyddo a pham. Os bydd y claf yn gwrthwynebu i'r cam o ddatgelu gwybodaeth amdano sy'n hanfodol ei datgelu yn eich barn chi er mwyn darparu gofal diogel, dylech esbonio na allwch ei atgyfeirio na threfnu ei driniaeth heb ddatgelu'r wybodaeth honno hefyd. Rhaid i chi ddilyn paragraffau 26–33 [Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion](#).
23. Rhaid i chi gofnodi eich gwaith yn unol â pharagraffau 69–71 *Arfer meddygol da a defnyddio'r systemau sydd ar gael i chi mewn ffordd effeithiol, yn enwedig pan na fyddwch yn gweld y claf eto*.

Atebolrwydd dros ddirprwyo neu atgyfeirio

24. Pan fyddwch yn dirprwyo neu'n atgyfeirio gofal, byddwch yn atebol am:
 - a. eich penderfyniad i ddirprwyo neu atgyfeirio gofal
 - b. y camau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau na chaiff diogelwch y claf ei beryglu
 - c. y cyfarwyddiadau y byddwch yn eu rhoi
 - d. rheolaeth gyffredinol claf os mai chi yw'r meddyg ymgynghorol neu'r clinigydd cyfrifol.²

² [Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol, *Guidance for taking responsibility: accountable clinicians and informed patients* \(2014\)](#).

-
25. Pan fyddwch yn dirprwyo neu'n atgyfeirio gofal claf i gydweithiwr neu wasanaeth yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y canllaw hwn, nid ydych yn atebol am weithredoedd (neu anweithredoedd) y rhai y byddwch yn dirprwyo neu'n atgyfeirio gofal iddynt.
 26. Pan fyddwch yn derbyn cyfrifoldeb dros dasg ddirprwyedig, rydych chi'n atebol am y camau y byddwch yn eu cymryd i flaenoriaethu diogelwch cleifion.
 27. Os bydd amwysedd neu ansicrwydd am y sawl sy'n meddu ar gyfrifoldeb dros dasg mewn tîm amlddisgyblaethol neu amlasiantaethol, dylech ddilyn y canllawiau ym mharagraff 17 [Arweinyddiaeth a rheolaeth](#).

Atodiad – Dyfyniadau o *Arfer meddygol da*

Dirprwyo mewn ffordd ddiogel a phriodol

- 66 Rhaid i chi deimlo'n hyderus bod unrhyw unigolyn y byddwch yn dirprwyo iddo yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni'r dasg yr ydych yn ei dirprwyo. Rhaid i chi roi cyfarwyddiadau clir iddo a'i annog i ofyn cwestiynau a cheisio cymorth neu oruchwyliaeth os bydd ei hangen arnynt.
 - 67 Os bydd cydweithiwr yn dirprwyo tasg i chi ond nid ydych chi'n teimlo'n hyderus eich bod yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau neu'r hyfforddiant i'w chyflawni yn ddiogel, rhaid i chi flaenoriaethu diogelwch y claf a cheisio cymorth, hyd yn oed os byddwch eisoes wedi cytuno i gyflawni'r dasg yn annibynnol.
 - 68 Rhaid i chi ddilyn ein canllaw mwy manwl, [Dirprwyo ac atgyfeirio](#).
-

-
- 69 Rhaid i chi sicrhau bod cofnodion ffurfiol o'ch gwaith (gan gynnwys cofnodion cleifion) yn glir, yn fanwl, yn **gyfoes**³ ac yn ddarllenadwy.
- 70 Dylech fabwysiadu dull gweithredu cymesur tuag at lefel y manylder, ond fel arfer dylai cofnodion cleifion gynnwys:
- canfyddiadau clinigol perthnasol
 - cyffuriau, ymchwiliadau neu driniaethau a gynigiwyd, a ddarparwyd neu a ragnodwyd
 - y wybodaeth a rannwyd gyda chleifion
 - pryderon neu ddewisiadau a fynegwyd gan y claf, y gallent fod yn berthnasol i'w ofal parhaus, ac yr aethpwyd i'r afael â nhw
 - gwybodaeth am unrhyw addasiadau rhesymol a dewisiadau o ran cymorth cyfathrebu
 - penderfyniadau a wnaethpwyd, camau gweithredu y cytunwyd arnynt (gan gynnwys penderfyniadau i beidio â gwneud unrhyw beth) a phryd/a ddylai penderfyniadau gael eu hadolygu
 - pwysu sy'n creu'r cofnod a phryd.
- 71 Rhaid i chi gadw cofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol am gleifion, cydweithwyr neu eraill mewn ffordd ddiogel, ac yn unol ag unrhyw ofynion cyfraith diogelu data, a rhaid i chi ddilyn ein canllaw ynghylch **[Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion.](#)**

³ Ystyr cyfoes ydy creu cofnodion ar yr un pryd â'r digwyddiadau yr ydych yn eu cofnodi, neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny.

Troednodiadau

1. [Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol – Cyngor gan yr Hwb Moesegol i oruchwylwyr.](#)
2. Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol, [Guidance for taking responsibility: accountable clinicians and informed patients](#) (2014).
3. Ystyr cyfoes ydy creu cofnodion ar yr un pryd â'r digwyddiadau yr ydych yn eu cofnodi, neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny.

E-bost: gmc@gmc-uk.org

Wefan: gmc-uk.org

Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **ffoniwch 18001** yna **0161 923 6602** i

ddefnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun.

Ymunwch â'r sgwrs

 [@gmcuk](https://twitter.com/gmcuk)

 facebook.com/gmcuk

 linkd.in/gmcuk

 youtube.com/gmcuktv

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu e-bostiwch ni ar gmc@gmc-uk.org.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

© 2023 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint Cyngor Meddygol Cyffredinol dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/DR/1224